

**Adroddiad i Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd gan Bwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng Wylfa/Trawsfynydd ar y cyd**

*Amanda Tucker, Peiriannydd Parodrwydd Argyfwng, Safle Trawsfynydd*

Eitemau perthnasol ar agenda'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng a gynhaliwyd ar 17 Medi 2013:

Trefniadau Argyfwng y Safle

Ni welwyd unrhyw newidiadau sylweddol yn nhrefniadau argyfwng y Safle ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle. Nid yw Trefniadau Argyfwng y Safle wedi'u rhoi ar waith ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle. Bydd Trawsfynydd yn tynnu'n ôl fel safle ymateb ar gyfer RADSAFE a NAIR ar 31 Rhagfyr 2013. Bydd y safle'n parhau yn anfonwr RADSAFE.

Mae adolygiad o'r peryglon a'r achosion diogelwch yn safle Trawsfynydd wedi arwain at ddiweddarau'r ddogfen Gwerthuso Risg Canfod Peryglon (HIRE). Mae'r ddogfen bwysig hon yn nodi'r cynlluniau argyfwng ar gyfer Trawsfynydd. Mae'r ddogfen HIRE a'r gwaith achos diogelwch cysylltiedig wedi penderfynu nad oes beiau y mae modd eu rhagweld a allai arwain at ryddhau sylweddol oddi ar y safle. Mae'r ddogfen ddiwygiedig wedi cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch Niwclear. Y cam nesaf yw gwneud cyflwyniad ffurfiol i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) i ofyn iddynt ystyried y gofyniad parhaus am drefniadau oddi ar y safle yn unol â REPPIR, sy'n cynnwys y trefniadau ar gyfer trigolion yn y Parth Cynlluniau Argyfwng Manwl cyfredol. Bydd ein trefniadau cyfredol yn parhau ar waith nes bydd ONR yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am unrhyw newid y mae angen ei gyflwyno, a bydd MagnaX ac awdurdod lleol Gwynedd yn esbonio unrhyw newidiadau i rhanddeiliaid yn fanwl.

Staff Cynllun Argyfwng

Mae'r safle ar fin wynebu cyfnod pontio, ac mae hyn wedi golygu bod rhai o aelodau'r cynllun wedi gadael y safle. Arweiniodd y broses recriwtio yn 2012 at lunio cronfa o ymgeiswyr a oedd wedi dangos diddordeb mewn ymuno â'r cynllun. Bydd cyfle i nifer o'r ymgeiswyr hynny bellach ddod yn aelodau o'r cynllun argyfwng. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw brawf y bydd y cyfnod pontio yn cael effaith andwyol ar y cynllun. Serch hynny, caiff hyn ei fonitro'n agos.

Hyfforddiant ac Ymarferion

Cynhaliwyd yr ymarfer arddangos i'r ONR ar 26 Mehefin 2013. Roedd hwn yn ymarfer yn ystod y dydd a oedd yn golygu arllwys dau fath gwahanol o ddeunydd wedi'i halogi, a damwain halogedig. Penderfynodd ONR a Thîm Sicrwydd MagnaX fod yr ymarfer yn brawf digonol o'n trefniadau argyfwng.